


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

Lawrlwytho data nesaf – 30 Mehefin 2020.

Diolch i'r holl Bractisau a fewngofnododd a gwirio bod eu data i gyd yn gywir cyn lawrlwytho'r data ar 30 Mehefin.

Byddwn nawr yn mynd trwy broses o ddilysu data, felly byddem yn ddiolchgar am eich cydweithrediad wrth i ni gywiro unrhyw faterion Ansawdd Data.



Canolbwyntio ar: Absenoldeb

Yn dilyn adborth gan Reolwyr Practisiau, yn ystod Chwarter 3 (Gorffennaf–Medi) cofnodwch absenoldebau **tymor hir** yn y maes hwn o'r Cofnod Staff, os bydd angen adnoddau i lenwi'r absenoldeb e.e. Absenoldeb Mamolaeth neu Absenoldeb Salwch Tymor Hir.

Y Camau sydd eu Hangen Dylai Rheolwyr Practisiau wirio bod pob Absenoldeb **Tymor Hir** wedi'i gofnodi yn yr ardal hon.



www.locumhubwales.co.uk

Mae ein hofferyn newydd cyffrous i archebu meddygon teulu locwm – Locum Hub Wales – bellach wedi ei lansio! Ydych chi'n barod?

Mae Locum Hub Wales yn cefnogi Meddygon Teulu Locwm, Practisiau Meddygon Teulu a Byrddau Iechyd i ddod o hyd i atebion addas, effeithiol a symlach ar gyfer eu hanghenion Locwm. Locum Hub Wales yw cartref newydd Y Gofrestr Meddygon Locwm i Gymru Gyfan.

Y Camau sydd eu Hangen:

- Bellach gall pob Rheolwr Practis gofrestru ar y wefan. Peidiwch ag anghofio nodi eich bod yn gweithio yn eich Practis pan fyddwch yn creu eich proffil.
- Gweld a hysbysebu Sifftiau Locwm

AWGRYM: Mae Locum Hub Wales yn gweithio orau gyda Google Chrome.

Gan fod trefniadau gweithio practisiau meddygon teulu'n newid yn rheolaidd oherwydd y pandemig Coronafeirws parhaus, mae'r trefniadau ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) wedi'u hegluro mewn dogfen a gynhyrchwyd gan ein tîm Cyfreithiol a Risg. Cliciwch ar y ddolen isod i ddarllen y ddogfen bwysig hon, sy'n amlinellu'r canllawiau ar gyfer GMPI yn ystod yr achosion o Coronafeirws.

[Trefniadau indemniad yn ystod pandemig Coronafeirws](#)

Os oes angen cymorth neu help ychwanegol ar unrhyw Bractis gyda System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu (WNWRS) yn ystod y cyfnod anodd hwn, e-bostiwch nwssp.primarycarewnwrs@wales.nhs.uk. Byddant yn hapus i drafod cymorth ychwanegol ar gyfer practisiau ar sail unigol.

Syniadau ac Awgrymi



Ydych chi wedi bwydo Cofnod Staff ddwywaith drwy gamgymeriad? Os felly, e-bostiwch nwssp.primarycarewnwrs@wales.nhs.uk a fydd yn gallu dileu'r cofnod dyblyg i chi. Cofiwch gynnwys cyfarwyddiadau clir ynghylch pa gofnod y dylid ei ddileu, gan gynnwys sgrinluniau lle bo hynny'n bosibl.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Ffôn: 01792 860490/0498
E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan drwy: <http://www.nwssp.wales.nhs.uk>



GIG CYMRU NHS WALES

Gwasanaethau Cyflogaeth
Gwasanaethau Cyflogaeth

Shared Services Partnership
Employment Services